

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Bil yr Amgylchedd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd Bil yr Amgylchedd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020. Ar 26 Chwefror 2021, cyflwynwyd cynnig i ddwyn y Bil ymlaen i'r sesiwn Seneddol nesaf. Ailgyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 26 Mai 2021.
3. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd i'w weld yma:  
<https://bills.parliament.uk/publications/41652/documents/310>

### Amcanion Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi ar gyfer y Bil hwn yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE, a darparu hefyd ar gyfer gwella'r amgylchedd mewn ffyrdd penodol, gan gynnwys mesurau ar wastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau, ansawdd aer ac adalw amgylcheddol, dŵr, natur a bioamrywiaeth, a chyfamodau cadwraeth.

### Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).
6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch targedau, cynlluniau a pholisïau i wella'r amgylchedd naturiol; ar gyfer datganiadau ac adroddiadau am ddiogelu'r amgylchedd; ar gyfer Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; ynghylch gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau; ansawdd aer; ar gyfer adalw cynhyrchion sy'n methu â bodloni safonau amgylcheddol; ynghylch dŵr; natur a bioamrywiaeth; ar gyfer cyfamodau cadwraeth; rheoleiddio cemegau; a dibenion cysylltiedig.
7. Dyma'r cymalau sy'n benodol berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol – cymal 19 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a chymal 45 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n gysylltiedig â chymal 19
- Rhan 3 – Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau – cymalau 49 a 50 (Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) ac Atodlenni 4 a 5, cymalau 51 - 54 (Effeithlonrwydd o ran Adnoddau), cymal 57 (Olrhain gwastraff yn electronig: Prydain Fawr), cymal 59 (Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr), cymal 62 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990), cymal 63 (Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl), cymal 65 (Pwerau gorfodi), cymal 67 (Gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel), cymal 68 (Hysbysiadau Cosb Benodedig), cymal 69 (Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd)
- Rhan 4 – Ansawdd aer ac adalw amgylcheddol – cymal 71 (Fframwaith rheoli ansawdd aer yn lleol, cymal 72 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993)
- Rhan 5 – Dŵr – cymalau 77 a 78 (cynlluniau a chynigion), cymal 79 (Pŵer awdurdod i wneud gwybodaeth yn ofynnol), cymal 81 (Cyflwyno dogfennau'n electronig), cymal 83 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol), cymal 84 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru), cymal 87 (Ansawdd dŵr: dehongli), cymalau 89 – 91 (Draenio tir)
- Rhan 6 – Natur a Bioamrywiaeth – cymal 109 (Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweitharwch masnachol)
- Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol – cymal 133 (Diwygio'r ddeddfwriaeth ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH))

## **Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

Byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn:

### *Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol*

#### *Cymal 19 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd)*

8. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y Goron, wrth gyflwyno Biliau gerbron Senedd y DU, wneud datganiadau 'dim atchwelyd', h.y. na fydd lefel yr amddiffyniad amgylcheddol yn is na'r safonau cyffredin sy'n gymwys yn yr UE a'r DU. Mae'r broses yn gymwys pan fydd un o Weinidogion y Goron yn cyflwyno Bil gerbron Senedd y DU a fyddai, pe bai'n dod yn ddeddf, yn cael ei ystyried yn 'gyfraith amgylcheddol' at ddibenion cymal 45.

9. Mae datganiad o dan gymal 19 yn ddatganiad bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n gyfraith amgylcheddol, ac yn ddatganiad naill ai –

- i'r perwyl bod y Gweinidog o'r farn na fydd y Bil yn cael yr effaith o leihau lefel yr amddiffyniad amgylcheddol a ddarperir mewn unrhyw gyfraith amgylcheddol sy'n bodoli eisoes; neu
- nad yw'r Gweinidog yn gallu gwneud y datganiad uchod, ond bod y Llywodraeth, er hynny, am i Senedd y DU fwrw ymlaen â'r Bil.

10. Yn wahanol i weddill y Bil, mae 'cyfraith amgylcheddol' at y dibenion hyn yn cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol ddatganoledig. Effaith hynny yw bod y gofynion uchod yn gymwys i'r un graddau i Filiau'r DU sy'n ymwneud â 'chyfraith amgylcheddol' sy'n gymwys yng Nghymru, yn yr un ffordd ag y mae'r gofynion hynny'n gymwys yn Lloegr.

11. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn ymwneud â phrosesau Seneddol. Gan fod 'Senedd y DU', at ei gilydd, yn bwnc a gadwyd yn ôl, safbwynt Llywodraeth y DU yw nad oes angen cydsyniad y Senedd. Er mai proses yw hon yr ymgwymerir â hi drwy weithdrefn atebolrwydd yn Senedd y DU, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diben y ddarpariaeth, mewn gwirionedd, yn un amgylcheddol – pwnc sydd wedi'i ddatganoli.

12. Am y rhesymau uchod, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 19.

*Cymal 45 (Ystyr cyfraith amgylcheddol)*

13. Cymal 45 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n gysylltiedig â chymal 19.

*Rhan 3 – Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau*

*Cymalau 49 a 50 (Cyfrifoldeb y cynhyrchydd) ac Atodlenni 4 a 5*

14. Mae cymal 49 ac Atodlen 4 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau ynglŷn â rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldeb y cynhyrchydd ac ynglŷn â gorfodi'r rheoliadau hynny. Gwneir hynny drwy ddiwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

15. Mae cymal 50 ac Atodlen 5 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n gweithgynhyrchu, yn prosesu, yn dosbarthu neu'n cyflenwi cynhyrchion neu ddeunyddiau, dalu costau gwaredu'r cynhyrchion hynny, neu gyfrannu at y costau hynny.

16. Yr awdurdod cenedlaethol perthnasol yng Nghymru yn achos y ddwy ddarpariaeth hyn yw Gweinidogion Cymru, er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael deddfu mewn perthynas â Chymru gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').

17. Mae'r pŵerau a roddir yng nghymal 49/Atodlen 4 ac yng nghymal 50/Atodlen 5 i gyd yn ymarferadwy drwy weithdrefn gadarnhaol gerbron y Senedd, neu gerbron Senedd y DU pan gânt eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
18. I'r graddau y mae'r darpariaethau hyn at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (h.y. gwastraff), barn Llywodraeth Cymru yw bod angen ei gydsyniad ar eu cyfer.

*Cymalau 51 – 54 (Effeithlonrwydd o ran adnoddau)*

19. Mae cymal 51 (gwybodaeth am effeithlonrwydd o ran adnoddau) ac Atodlen 6 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion i weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag effeithlonrwydd eu cynhyrchion o ran adnoddau. Mae'r holl reoliadau o dan Atodlen 6 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.
20. Mae cymal 52 (gofynion o ran defnyddio adnoddau yn effeithlon) ac Atodlen 7 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion o ran defnyddio adnoddau yn effeithlon y mae'n ofynnol i gynhyrchion eu bodloni. Mae'r holl reoliadau o dan Atodlen 7 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.
21. Mae cymal 53 ac Atodlen 8 yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud rheoliadau sy'n sefydlu cynlluniau talu ernes. Fel arfer, mae rheoliadau o dan Atodlen 8 yn dilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir yn nghymal 53(5). Y weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir o dan yr amgylchiadau hynny.
22. Diffinnir yng nghymalau 51 - 53 mai'r awdurdod cenedlaethol perthnasol yng Nghymru yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff pŵer Gweinidogion Cymru i ddeddfu ei gyfyngu i ddarpariaeth a fyddai, o'i cynnwys yn un o Ddeddfau'r Senedd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddeddfu dros Gymru mewn achosion y tu allan i'r cymhwysedd hwn, neu i ddeddfu'n gyffredinol os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad (cydredol plws).
23. Mae cymal 54 ac Atodlen 9 yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud rheoliadau ynglŷn â thaliadau am eitemau plastig untro. Yr awdurdod cenedlaethol perthnasol ar gyfer Cymru yw Gweinidogion Cymru. Mae rheoliadau o dan Atodlen 9 yn dilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yng nghymal 52(3). Y weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir o dan yr amgylchiadau hynny.
24. Mae cymalau 51 - 54 yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (h.y. gwastraff).

*Cymal 57 (Olrhain gwastraff yn electronig: Prydain Fawr)*

25. Mae cymal 57 yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gan fewnosod adrannau 34CA a 34CB newydd, er mwyn creu pwerau i gyflwyno trefniadau i olrhain gwastraff yn electronig (digidol) yn Lloegr, Cymru a'r Alban, ac i sefydlu system electronig system at y diben hwnnw drwy gyfrwng rheoliadau.
26. Mae'r pwerau a roddir drwy fewnosod adrannau 34CA a 34CB yn gymwys i Weinidogion Cymru.
27. Mae cymal 57(3) yn diwygio adran 160A(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i mewnosodir gan gymal 62, er mwyn darparu ar gyfer y weithdrefn ar gyfer y pwerau newydd i wneud rheoliadau. Mae rheoliadau o dan yr adrannau 34CA a 34CB newydd yn dilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd. Y weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir o dan yr amgylchiadau hynny.
28. I'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (h.y. gwastraff), barn Llywodraeth Cymru yw bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 59 (Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr)*

29. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â gwastraff peryglus yng Nghymru a Lloegr. Mae pwerau hefyd yn yr adran 62ZA newydd i wneud rheoliadau ynghylch rheoleiddio gwastraff peryglus, neu mewn cysylltiad â hynny. Caiff y pwerau eu rhoi i'r 'awdurdod cenedlaethol perthnasol', sef Gweinidogion Cymru yng Nghymru.
30. Mae rheoliadau o dan yr adran 62ZA newydd yn dilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd (fel y'i cyflwynir gan gymal 60 ac fel y'i diwygir gan gymal 59). Y weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir yn yr achosion hynny.
31. I'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (h.y. gwastraff), barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad.

*Cymal 62 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)*

32. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Ddeddf. Mae hyn yn cydgrynhoi'r amryfal ddarpariaethau newydd a fewnosodir i'r Ddeddf gan y Bil hwn.

33. I'r graddau y mae darpariaeth yn cael ei gwneud at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (h.y. mae'n ganlyniadol i'r darpariaethau y mae'n gysylltiedig â hwy sydd, ynddynt eu hunain, yn rhai sy'n ymdrin â diogelu'r amgylchedd/gwastraff ac sydd, felly, wedi'u datganoli), mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad.

*Cymal 63 (Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl)*

34. Mae cymal 63 yn diwygio adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 drwy fewnosod pwerau a fydd yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban wneud cynlluniau codi tâl er mwyn adennill costau y byddant yn eu hysgwyddo drwy ymgymryd â swyddogaethau.

35. I'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (gwastraff a diogelu'r amgylchedd), barn Llywodraeth Cymru yw bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 65 (Pwerau gorfodi)*

36. Mae cymal 65 yn cyflwyno Atodlen 10 sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â phwerau gorfodi mewn perthynas â gwastraff a materion amgylcheddol eraill. Yn benodol, mae'r diwygiadau'n cynnwys mân ddiwygiadau i Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989; diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â phwerau i chwilio ac i ymafael mewn cerbydau mewn cysylltiad â throseddau sy'n gysylltiedig â gwastraff, a diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 er mwyn darparu pwerau gwneud cyfarwyddydau mewn perthynas â gwastraff.

37. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth at ddibenion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (gwastraff, ansawdd aer a diogelu'r amgylchedd), barn Llywodraeth Cymru yw bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 67 (Gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel)*

38. Mae cymal 67 yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â chymau gorfodi yn erbyn gollwng sbwriel a dosbarthu deunyddiau argraffedig rhad ac am ddim heb yr awdurdod i wneud hynny.

39. Mae cymal 67 yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru (gan mai hwy yw'r 'person priodol' yng Nghymru) ragnodi amodau drwy gyfrwng rheoliadau, a'r amodau hynny'n rhai y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran awdurdod sy'n ymdrin â gollwng sbwriel. Mae'r cymal hwn hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n ymdrin â gollwng sbwriel ddirymu awdurdodiad swyddog os yw'r swyddog yn methu â bodloni'r amodau a ragnodir. Mae'r pwerau newydd yn dilyn y weithdrefn negyddol.

40. Mae cymal 67 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud canllawiau. Ni fyddai unrhyw weithdrefn ar gyfer unrhyw ganllawiau a ddyroddid o dan y pwerau hyn.

41. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff/diogelu'r amgylchedd, sef diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 68 (Hysbysiadau cosb benodedig)*

42. Mae cymal 68 yn diwygio adrannau 33ZA, 33ZB, 34ZA a 34ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel y bo modd amrywio lefel yr hysbysiadau cosb benodedig o dan yr adrannau hynny, a hefyd amrywio'r cyfnod amser lle caniateir i swm llai gael ei roi er mwyn talu'r gosb benodedig. Mae adrannau 33ZB a 34ZB yn gymwys i Gymru, tra bo 33ZA a 33ZB yn gymwys i Loegr.

43. Mae'r diwygiadau yng nghymal 68 yn caniatáu i Weinidogion Cymru fedru gwneud rheoliadau sy'n pennu symiau cosb yn lle'r rheini a bennir ar hyn o bryd yn yr adrannau uchod. Mae'r pwerau hyn yn dilyn y weithdrefn negyddol yn unol ag adran 160A of Ddeddf 1990 (fel y'i mewnosodir gan gymal 60).

44. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff/diogelu'r amgylchedd, sef diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 69 (Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd)*

45. Mae'r cymal hwn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, sy'n nodi at ba ddibenion y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Adran 2 o'r Ddeddf. Mae is-adran (2) yn mewnosod is-baragraff newydd i baragraff 4 o Atodlen 1, gan nodi diben newydd y ceir gwneud rheoliadau ar ei gyfer. Mae hyn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wahardd gweithgaredd oni bai ei fod yn bodloni amodau y penderfynir arnynt gan Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'r rheoliadau.

46. Mae'r swyddogaethau o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 yn ymarferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, felly mae'r diwygiad newydd hwn hefyd yn ehangu cwmpas pwerau Gweinidogion Cymru.

47. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff/diogelu'r amgylchedd, sef diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei gydsyniad.

*Rhan 4 – Ansawdd Aer ac Adalw Amgylcheddol*

*Cymal 71 (Fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol)*

48. Mae cymal 71 yn cyflwyno Atodlen 11 sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mewn perthynas ag ansawdd aer.
49. Mae Atodlen 11, paragraff 2 yn diwygio adran 80 (strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995"). Mae'r paragraff hwn yn hepgor adran 80(3) o Ddeddf 1995 yn ogystal â gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu'r strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer. Gan fod adran 80(3) wedi'i hepgor, nid oes unrhyw amheuaeth mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer mewn perthynas â Chymru, ac mae hefyd yn adlewyrchiad mwy cywir o'r sefyllfa bresennol a natur ddatganoledig y rôl hon.
50. Mae paragraff 2(3) o Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth arall mewn perthynas ag adolygu'r strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer. Swyddogaeth Gweinidogion Cymru yw cyhoeddi'r strategaeth ar gyfer Cymru, felly, pe bai'r Senedd am ddeddfu i ddarparu darpariaeth o'r fath yng Nghymru, byddai hynny o fewn ei gymhwysedd ef a byddai angen ei gydsyniad.
51. I'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 2(3) o Atodlen 11, mae cymal 71 yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei gydsyniad.

*Cymal 72 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993)*

52. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 12 sy'n gwneud amryfal ddiwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993.
53. Mae Rhan 2 o Atodlen 12 yn diwygio adrannau 20 a 21 o Ddeddf Aer Glân 1993 mewn perthynas â Chymru er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o danwyddau awdurdodedig a lleoedd tân esempt i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg, yn hytrach na bod yn rhaid mynd ati bob blwyddyn i baratoi Rheoliadau a Gorchmynion at yr un diben. Bwriad y newidiadau yw gwneud y broses o ddynodi tanwyddau awdurdodedig a lleoedd tân esempt y caniateir eu gwerthu mewn ardaloedd rheoli mwg, yn un fwy effeithlon a llai trwm ar adnoddau. Mae'r system rhestrau yn ei lle eisoes yn Lloegr a'r Alban ac felly, mae'r darpariaethau hyn yn golygu y bydd gan Gymru yr un system â gweddill y DU.



54. Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag ansawdd aer ac mae'n ymwneud â Chymru yn unig. Felly, mae angen cydsyniad ar eu cyfer.
55. Mae paragraffau 14 a 15 yn diwygio adrannau 20 a 21 o Ddeddf 1993 o ganlyniad i'r newidiadau yn Rhan 2 o Atodlen 2. Maent, felly, yn ganlyniadol ar ddarpariaeth ddatganoledig, ac mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

#### *Rhan 5 – Dŵr*

56. Mae cymalau 77, 78, 79, 81, 83, 84 ac 87 yn ymwneud ag ansawdd dŵr.

#### *Cymalau 77 – 78 (cynlluniau a chynigion)*

57. Mae cymal 77 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â dyletswyddau cyffredinol ymgymeryr dŵr i baratoi cynigion a chynlluniau ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder, a chynigion ar y cyd. Mae'r rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.
58. Mae cymal 78 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â chynlluniau rheoli draeniad a charthffosiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod a ganiateir i ymgymerwr baratoi a chyhoeddi cynllun diwygiedig. Mae'r rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.
59. Mae cymalau 77 a 78 yn ymwneud â dŵr a charthffosiaeth ond nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw un neu rai o'r materion a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r cymalau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymgymeryr dŵr a charthffosiaeth y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac nad ydynt felly yn dod o dan y materion a gadwyd yn ôl ym mharagraffau 92 a 93 o Atodlen 7A. Gan fod y darpariaethau hyn, felly, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru, ac y byddai modd eu gwneud drwy gyfrwng Bil gan y Senedd, mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

#### *Cymal 79 (Pŵer awdurdod i wneud gwybodaeth yn ofynnol)*

60. Mae cymal 79 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 er mwyn rhoi pŵer i Ofwat ei gwneud yn ofynnol i ymgymeryr dŵr neu garthffosiaeth neu i drwyddedeion cyflenwadau dŵr neu garthffosiaeth ddarparu gwybodaeth ar ddibenion monitro.
61. Mae cymal 79 yn ymwneud â dŵr a charthffosiaeth, ac i'r graddau y gallai'r Cynulliad ddarparu ar gyfer yr un ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru, mae angen cydsyniad y Senedd.

*Cymal 81 (Cyflwyno dogfennau'n electronig)*

62. Mae cymal 81 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyflwyno dogfennau'n electronig i Ofwat.
63. Gan nad yw cymal 81 yn un o'r materion a gadwyd yn ôl, ac y byddai modd ei wneud drwy gyfrwng Bil gan y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar ei gyfer.

*Cymal 83 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol)*

64. Mae cymal 83 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer darparu ynghylch y sylweddau i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear, ac i bennu safonau ar gyfer y sylweddau hynny neu mewn perthynas â statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear. Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol ac mae gofynion hefyd o ran ymgynghori am y rheoliadau hynny.
65. Caniateir i reoliadau o dan y cymal hwn gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, naill ai—
- pan nad oes gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd gweithredol i wneud rheoliadau o dan gymal 84 (h.y. mae arfer y pŵer y tu hwnt i'w cymhwysedd deddfwriaethol – gweler cymal 84(5)); neu
  - gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru os oes ynddynt ddarpariaeth y gellid ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 84.
66. Gan fod y pŵer uchod yn un 'cydredol plws', mae angen cydsyniad i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn 'ddarpariaeth berthnasol' o dan RhS29.1(ii).

*Cymal 84 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru)*

67. Mae cymal 84 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau y gellir, yn fras, ei gymharu â'r pŵer yng nghymal 83, i Weinidogion Cymru ac yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrrff penodol cyn gwneud rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon. Bydd rheoliadau a wneir o dan gymal 84 yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol. Dim ond gwneud darpariaeth ar gyfer materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y caiff rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon.
68. I'r graddau y mae cymal 84 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ansawdd dŵr, sef diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae angen ei gydsyniad.

*Cymal 87 (Ansawdd dŵr: dehongli)*

69. I'r graddau y mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i'r darpariaethau uchod, mae angen cydsyniad ar ei chyfer.

*Cymalau 89 - 91 (Draenio tir)*

70. Mae cymal 89 yn diwygio adran 83 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn darparu ar gyfer penderfynu ar werth tir arall mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru yn unol â'r rheoliadau. Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Dim ond mewn perthynas ag ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru y mae'r cymal hwn yn gymwys ac mae, felly, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae angen ei gydsyniad.

71. Mae cymal 90 yn diwygio Deddf Draenio Tir 1991 ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu mai'r bwrdd draenio mewnol ar gyfer yr ardal o dan sylw sy'n penderfynu, yn unol â'r rheoliadau, ar werth blynyddol pob eiddo y gellir codi tâl arno mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru. Mae rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

72. Mae cymal 91 yn diwygio Deddf Draenio Tir 1991 ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â CThEM yn datgelu gwybodaeth am refeniw a thollau i berson cymwys, gan gynnwys CNC a Gweinidogion Cymru, at ddiben a bennir yn adran 37A. Mae'r adran 37A newydd hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, pan fo ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru o dan sylw, i bennu bod person yn berson cymwys at ddibenion yr adran hon. Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol a dim ond gyda chydsyniad Comisiynwyr CThEM y caniateir iddynt gael eu gwneud.

73. Gan fod cymalau 89, 90 a 91 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â draenio tir, sef diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei gydsyniad.

*Rhan 6 – Natur a Bioamrywiaeth*

*Cymal 109 (Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol)*

74. Mae cymal 109: 'Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol' yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau mawr sicrhau bod y nwyddau 'sy'n risg i goedwigoedd' a ddefnyddiant, sef y nwyddau hynny sy'n gallu achosi datgoedwigaeth ar raddfa fawr, wedi'u cynhyrchu'n gyfreithlon.

75. Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn anghyfreithlon i fusnesau o fewn cwmpas ddefnyddio, naill ai mewn cynhyrchu neu fasnachu o fewn y DU, nwyddau sy'n risg i goedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu yn unol â'r cyfreithiau perthnasol yn y wlad lle y cânt eu tyfu.
76. Mae'r ddarpariaeth yn gosod rhwymedigaeth ar fusnesau o fewn cwmpas i gynnal diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad yw nwyddau sy'n risg i goedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu'n gyfreithiol yn mynd i mewn i'w cadwyn gyflenwi, a dylent adrodd ar yr ymarfer yn gyhoeddus.
77. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Llywodraeth y DU ymhellach i godi dirwyon a sancsiynau sifil eraill yn erbyn busnesau sy'n parhau i ddefnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu'n gyfreithlon neu sydd bellach â system gadarn o ddiwydrwydd dyladwy yn ei lle.
78. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddarpariaeth yn ymwneud â chreu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithasau busnes a gedwir yn ôl o dan adran C1, paragraff 65 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
79. Rydym o'r farn mai diben y darpariaethau hyn yw diogelu amgylcheddau coedwigoedd a mynd i'r afael â newid hinsawdd ac felly, fel mater diogelu'r amgylchedd, maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Byddai'r cymalau yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1.

#### *Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol*

##### *Cymal 133 (Diwygio deddfwriaeth REACH)*

80. Mae cymal 133 yn cyflwyno Atodlen 20 sy'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Erthyglau Rheoliad REACH. Mae'r pŵer hwn yn ymarferadwy yn ddarostyngedig i'r gofyniad sy'n ymwneud â chydysyniad yn Erthygl 4A o Reoliad REACH.
81. Mae Atodlen 20 hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon hefyd mewn perthynas â diwygio Rheoliadau Gorfodi REACH, i'r graddau y byddai arfer y pŵer o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Byddai rheoliadau o'r fath yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r pŵer hwn yn ymarferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol.
82. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, megis diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Mae angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth felly.

83. Yn ogystal â'r uchod, bernir hefyd fod angen cydsyniad ar gyfer greu swyddogaethau cydredol plws mewn perthynas â'r pŵer i ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH.

### **Pwerau cydredol plws**

84. Mae pwerau cydredol plws yn y Bil mewn perthynas â chymalau 49-53 a'r atodlenni cysylltiedig, cymal 83 a chymal 133. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae cynnwys y swyddogaethau 'cydredol plws' hyn yn y Bil yn golygu hefyd fod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hefyd oherwydd y gellid dadlau eu bod yn 'addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd' (ac y byddent, yn eu tro, yn 'ddarpariaethau perthnasol at ddibenion RhS29.1(ii)).

85. Cyflwynwyd gwelliannau a fydd yn 'cerfio allan' y swyddogaethau cydamserol a mwy a grybwyllwyd uchod o'r gofyniad i Un o Weinidogion y Goron gydsynio i'w diddymu ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r diwygiadau'n cyflawni hyn drwy ychwanegu'r Bil at y rhestr eithriadau at gyfyngiadau Atodlen 7B ym mharagraffau 9 ac 11 o'r Atodlen honno. Mae'r diwygiadau'n addasu darpariaeth a ddiogelir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 7B, felly nid ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly nid ydynt yn 'ddarpariaethau perthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd**

86. Rydym yn dilyn yr egwyddor mai Senedd Cymru ddylai ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol. Wedi dweud hynny, mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol o dan rai amgylchiadau ac ar ôl cael cydsyniad y Senedd, i ofyn am ddarpariaethau ym Miliâu Senedd y DU a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

87. Mewn perthynas â darpariaethau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig (EPR), mae cymalau 49 i 54 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wireddu bwriad polisi o ddatblygu dull rheoleiddio o ymdrin ag EPR sy'n caniatáu, os oes angen, i gynlluniau cyson weithredu rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion ac eitemau. Mae'r gallu i gael yr opsiwn i ddatblygu cynlluniau cyson yn bwysig am resymau'r farchnad gan gynnwys y ffordd y mae llawer o fanwerthwyr yn gweithredu eu systemau dosbarthu.

88. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau sy'n gweithredu ledled y DU ac i'r busnesau hynny sy'n pontio'r ffin neu'n trosglwyddo gwastraff yn y DU. Gallai gweithredu gwahanol systemau EPR rhwng Cymru a Lloegr gymell

twyll a byddai'n ddryslyd i fanwerthwyr a'r cyhoedd. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu ar gyfer cyflawni camau gweithredu allweddol i ddarparu EPR ar gyfer pecynnu a DRS ar gyfer ymrwymadau cynwysyddion diodydd yn *Mwy Nag Ailgylchu*, strategaeth economi gylchol 2021.

89. Oherwydd natur yr economïau a'r cadwyni cyflenwi integredig sy'n gweithredu ar draws y pedair gwlad, gan gynnwys mewn perthynas â mewnforion, bydd busnesau am weld gofynion cyffredin ar gyfer gwybodaeth am effeithlonrwydd adnoddau cynnyrch a safonau effeithlonrwydd adnoddau yn cael eu pennu ar draws y pedair gwlad.
90. Ar gyfer plastigau defnydd untro, mae'r ddarpariaeth hon yn darparu offeryn deddfwriaethol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad yn y Strategaeth Mwy Nag Ailgylchu, y strategaeth economi gylchol i ddiddymu eitemau untro diangen, yn enwedig plastig. Mae hyn yn cynnwys cam gweithredu allweddol i ddatblygu opsiynau ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig tafladwy a chynwysyddion bwyd yng Nghymru.
91. Mae ceisiadau i ddiwygio Deddf Aer Glân 1993 yn gwneud y broses o gyhoeddi'r rhestr yn fwy effeithlon drwy ganiatáu ar gyfer cyhoeddi ar-lein. Yn ogystal, bydd gweithgynhyrchwyr yn elwa ar y cynnig hwn gan y bydd llai o oedi rhwng cael argymhelliad (i ddefnyddio tanwydd neu le tân) oddi wrth yr arbenigwyr technegol presennol dan gontract a gosod y cynnyrch ar y farchnad. Bydd hefyd yn lleihau'r risg o gamgymeriad wrth gofnodi a diweddarau'r rhestrau o danwyddau awdurdodedig a lleoedd tân esempt.
92. Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn cynyddu dewis defnyddwyr drwy alluogi rhoi mwy o gynhyrchion ar y farchnad yn gynt. Mae'r ddarpariaeth yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb wrth weithio i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol i ansawdd aer. Bydd y ddarpariaeth yn gwella gweithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru.
93. Ystyriwyd bod cymal 72 yn briodol i'w gynnwys mewn Bil y DU gan ei fod yn ddarpariaeth fach ac nad yw'n ddadleuol. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys y ddarpariaeth rhestrau cyhoeddedig ym Mesur Amgylchedd y DU er mwyn cyflawni, yn yr amser byrraf posibl, y manteision a ddisgrifir uchod i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr.
94. Gan gyfeirio at reoleiddio dŵr, bydd y pwerau a geisir yn diweddarau ac yn symleiddio'r broses reoleiddio ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Mae'r pwerau hyn hefyd yn cyflwyno gofynion rheoliadol newydd ar y cwmnïau dŵr i baratoi cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth. Paratowyd y fframwaith ar gyfer y cynlluniau hyn o dan raglen Water UK (rhaglen ddraenio'r 21ain ganrif) i sicrhau dull cyffredin ledled y DU. Bydd y cynlluniau'n nodi'r buddsoddiad sy'n ofynnol dros gyfnod o 25 mlynedd i

sicrhau y gall asedau draenio a charthffosiaeth addasu i newid yn yr hinsawdd a rheoli pwysau ychwanegol o dwf y boblogaeth.

95. Bydd y cynlluniau'n cysylltu â phroses cynllunio busnes y cwmnïau dŵr. Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr ac mae'n defnyddio dull cyffredin ar draws pob cwmni. Pe bai oedi cyn cyflwyno'r darpariaethau hyn, lle mae'r polisi wedi'i alinio, gallai fod risgiau i'r cwmnïau dŵr yng Nghymru o ran sicrhau cyllid drwy fodel Ofwat a mynd i'r afael â materion fel Gorlifau Carthffosiaeth Cyfunol (CSO) ac asedau sy'n heneiddio i alluogi tai a datblygu yng Nghymru.
96. At hynny, ceisir y pŵer cydredol o dan gymal 83 ar gyfer rheoleiddio dŵr yn dilyn Diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 sydd wedi dileu'r pŵer i newid y dull o ymdrin â sylweddau â blaenoriaeth. Mae angen pŵer newydd i alluogi Gweinidogion Cymru i gael fframwaith ar waith i asesu statws cemegol ein dyfroedd.
97. O ran draenio tir, ceisir cymalau 89 – 91 i ddarparu ar gyfer pwerau i ddiweddarau'r ffordd y dosrennir treuliau drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r diwygiadau hyn yn bwysig i'r Bwrdd Draenio Mewnol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, gasglu refeniw.
98. Caiff ffioedd eu pennu ar gyfer pob Bwrdd Draenio a'u gweinyddu gan CNC yng Nghymru. Felly mae natur gydgyssylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu ei bod yn fwyaf effeithiol a phriodol i ddarpariaeth ar gyfer y ddau gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.
99. O ran darpariaethau REACH, roedd gan Weinidogion Cymru y pŵer o'r blaen i ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH yng Nghymru o dan Orchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2007, er bod y Rheoliadau hynny fel arfer wedi'u diweddarau ar sail y DU gyfan gan Defra gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. Mae angen pwerau cydredol plws i gynnal y status quo blaenorol a chadw pwerau a arferai fod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan gyfraith yr UE.

### **Goblygiadau ariannol**

100. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i'r Senedd ar hyn o bryd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y bil hwn.

### **Casgliad**

101. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol defnyddio Bil Amgylchedd y DU i gyflwyno mentrau y mae'n debygol y bydd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth ar gyfer economi gylchol, yn enwedig pan fydd

angen gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig gyda gweinyddiaethau eraill y DU. Yn yr un modd, mae rheoli ansawdd dŵr mewn ffordd effeithiol a rheoleiddio cemegau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn faterion priodol ar gyfer y Bil hwn. Mae'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sy'n ymwneud ag ansawdd aer a draenio tir yn fodd i wneud cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru yn fwy clir, neu mae'r newidiadau a wneir yn rhai gweinyddol eu natur, ac mae'r Bil yn cynnig cyfle i fwrw ymlaen â hwy.

**Julie James AS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
**18 Mehefin 2021**



**Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ym Mil Amgylchedd y Deyrnas Unedig**

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
Cymal 49 Atodlen 4 Ymrwymadau o ran cyfrifoldeb y cynhyrchydd	Gweinidogion Cymru (pwerau cydredol plws)	Rheoliadau	Yn rhoi'r pŵer i wneud Rheoliadau i roi ymrwymiad cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar bobl benodol ac ynghylch cynnyrch neu ddeunydd penodol.	Y weithdrefn gadarnhaol ac eithrio'r rheoliadau o dan 47(4) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer amrywio targedau ac sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol	Yn rhoi'r hyblygrwydd i ddatgan mewn rheoliadau pa gynhyrchydd neu fusnes y rhoddir ymrwymiad cyfrifoldeb y cynhyrchydd arnynt, mewn perthynas â pha gynnyrch neu ddeunydd a beth sydd angen ei wneud i gyflawni'r ymrwymadau.
Cymal 50 Atodlen 5 Cyfrifoldeb y cynhyrchydd am gostau gwaredu	Gweinidogion Cymru (pwerau cydredol plws)	Rheoliadau	Yn rhoi'r pŵer i wneud Rheoliadau i fynnu bod y rheini sy'n gweithgynhyrchu, prosesu, dosbarthu neu gyflenwi cynnyrch neu ddeunydd yn ysgwyddo neu'n cyfrannu at gostau gwaredu'r cynnyrch hynny.	Y weithdrefn gadarnhaol	Yn hwyluso gwneud darpariaeth ar wahân yng Nghymru ynghylch gorfodi. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd hefyd i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer mathau gwahanol o gynnyrch, er enghraifft trwy enwi cyrff gwahanol yn awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol.
Cymal 51 Atodlen 6 Gwybodaeth am	Gweinidogion Cymru (pwerau	Rheoliadau	Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion ar	Y weithdrefn gadarnhaol	Yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer pob math o gynnyrch a reoleiddir,

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
ddefnyddio adnoddau'n effeithiol	cydredol plws)		weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr i ddarparu gwybodaeth ynghylch pa mor rhad ar adnoddau y mae eu cynnyrch.		a gwneud rheoliadau ar wahân ar gyfer pob un. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd hefyd i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gynnyrch, er enghraifft trwy enwi cyrff gwahanol yn awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol.
Cymal 52 Atodlen 7 Y gofyn i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n pennu'r gofynion y mae gofyn i gynnyrch eu bodloni o ran defnyddio adnoddau'n effeithiol.	Y weithdrefn gadarnhaol	Gall fod gofyn darparu gwybodaeth fanwl a thechnegol am gynnyrch penodol ac felly byddai'n fwy addas ei gynnwys mewn rheoliadau nag mewn deddfwriaeth sylfaenol.
Cymal 53 Atodlen 8 Cynlluniau talu ernes	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau talu ernes.	Y weithdrefn gadarnhaol os mai dyma'r rheoliadau cyntaf i: a) sefydlu cynlluniau talu ernes o dan	Yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer pob grŵp o gynnyrch a reoleiddir, a gwneud rheoliadau ar wahân ar gyfer pob un.

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
				<p>baragraff 1, neu eu gorfodi o dan baragraff 5;  (b) darparu bod ymddygiad yn drosedd er nad yw'n drosedd o dan reoliadau presennol;  (c) yn darparu bod ymddygiad yn destun cosb sifil;  (d) cynyddu swm neu uchafswm dirwy neu gosb ariannol, neu newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o'r fath.</p> <p>Fel arall, mae'r rheoliadau o dan Atodlen 8 yn dod o dan y</p>	

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
				weithdrefn negyddol.	
Cymal 54 Atodlen 9 Codi tâl am eitemau plastig untro	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliad i ddarparu bod gwerthwyr nwyddau'n codi tâl am gyflenwi eitemau plastig untro.	Y weithdrefn gadarnhaol os (a) mai dyma'r rheoliadau cyntaf i'r awdurdod eu gwneud o dan yr Atodlen honno; (b) yn cynnwys darpariaeth ynghylch codi tâl am eitem newydd; (c) yn darparu bod ymddygiad yn destun cosb sifil nad yw'n destun cosb sifil o dan reoliadau presennol a wnaed gan yr awdurdod o dan yr Atodlen honno;	O gael y pŵer datganoledig hwn, caniateir i Weinidogion Cymru ddiffinio pa eitemau y codir tâl amdanynt, faint o dâl a godir a phenodi gweinyddwr a phennu'i ofynion, i oruchwylio'r tâl yn unol â blaenoriaethau Cymru.

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
				<p>(d) cynyddu swm neu uchafswm cosb ariannol, neu newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o'r fath.</p> <p>Fel arall, mae'r rheoliadau o dan Atodlen 9 yn dod o dan y weithdrefn negyddol.</p>	
Cymal 57 Tracio gwastraff yn electronig: Prydain Fawr	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno tracio gwastraff yn electronig (digidol) ac i sefydlu system electronig at y diben hwnnw trwy reoliadau.	Mae cymal 55(3) yn gwneud newidiadau i adran 160A(2) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i mewnosodir gan gymal 60) i ddarparu	Bydd y rheoliadau ar dracio gwastraff yn darparu data fydd yn hanfodol i ddatblygu economi gylchol a pholisi gwastraff yn y dyfodol. Bydd casglu data am wastraff a'r rheini sy'n ei reoli yn ei gwneud yn haws gwybod pwy sydd (neu oedd) yn gyfrifol amdano ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn helpu i reoleiddio gwastraff ac i wybod pwy sy'n

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
				<p>gweithdrefn ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau newydd a gynhwysir yn adran 160A. Bydd y rheoliadau o dan adrannau 34CA a 34CB newydd yn dod o dan y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd, a ddaw o dan y weithdrefn gadarnhaol.</p>	<p>gyfrifol am wastraff anghyfreithlon. Bydd hyn yn cysoni deddfwriaeth tracio gwastraff â deddfwriaeth rheoli gwastraff, sydd ar hyn o bryd o dan is-ddeddfwriaeth.</p>
Cymal 59 Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer neu ynghylch rheoleiddio	Bydd y rheoliadau o dan yr adran 62ZA newydd o	Bydd hyn yn ei gysoni â'r system reoleiddio bresennol ar gyfer gwastraff peryglus sydd ar hyn o bryd o dan is-ddeddfwriaeth.

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
			gwastraff peryglus	Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn dod o dan y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodir gan gymal 60 a'i diwygio gan gymal 57), a ddaw o dan y weithdrefn gadarnhaol.	
Cymal 67 Gorfodi rheoliadau taflu sbwriel	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau  Canllawiau	Yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 o ran gorfodi rhag sbwriel a throseddau eraill fel taflu sbwriel o gerbyd a	Y weithdrefn negyddol.  Ni fydd gweithdrefn i	Bydd angen hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i newid neu ddiweddarau'r amodau y bydd gofyn i swyddog a awdurdodir gan awdurdod sbwriel eu bodloni er mwyn adlewyrchu anghenion

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
			<p>dosbarthu deunydd print di-dâl heb awdurdod.</p> <p>Yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn adran 88 o Ddeddf 1990 i osod amodau y mae'n rhaid i swyddog ag awdurdod sy'n gweithredu ar ran awdurdod sbwriel eu bodloni, a gwneud darpariaeth i awdurdod sbwriel ddiddymu awdurdod swyddog os na fydd yn bodloni'r amodau.</p> <p>Yn rhoi pwerau hefyd i Weinidogion Cymru wneud canllawiau.</p>	<p>ganllawiau a gyhoeddir o dan y pwerau hyn.</p>	<p>a datblygiadau cyfnewidiol y sector. O'r herwydd, ni fyddai deddfwriaeth sylfaenol yn gyfrwng priodol ar gyfer y pŵer hwn.</p> <p>Er bod y rheoliadau ar gyfer delio â sbwriel yn gweithredu ar lefel Cymru a Lloegr a bod y canllawiau'r un peth yn fras, ceir rhai gwahaniaethau yn y ffordd y gweithredwn ein polisiau ni sy'n cyfiawnhau dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos iawn ag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector i ddatblygu a chynnal yr agweddau ar daclo taflu sbwriel sy'n ymwneud ag addysg a newid ymddygiad. Efallai felly y byddwn am gael yr hyblygrwydd i gynnwys y gwaith hwnnw mewn canllawiau gorfodi y gallem eu datblygu.</p> <p>Mae angen y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol er mwyn</p>



Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
					sicrhau bod yr awdurdodau sbwriel amrywiol yn ysgwyddo'u swyddogaethau gorfodi sbwriel mewn ffordd gyson a chymesur.
Cymal 68 Hysbysiadau Cosb Benodedig	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn diwygio adrannau 33ZA, 33ZB, 34ZA a 34ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i roi'r pwerau i newid lefelau Hysbysiadau Cosb Benodedig a sut i'w talu.	Y weithdrefn negyddol	Mae cael pŵer i newid y cosbau mewn is-ddeddfwriaeth yn golygu bod modd eu hadolygu, gweld a ydynt yn gweithio'n effeithiol a'u newid os oes angen.
Cymal 69 Rheoleiddio gweithgareddau sy'n llygru	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Rheoleiddio gweithgareddau sy'n llygru	Y weithdrefn negyddol	Yn caniatáu i'r rheoleidddydd bennu a newid amodau manwl ar gyfer eithrio (rhag y gwaharddiad i gynnal gweithgaredd heb drwydded).
Cymal 77 Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder a chynigion ar y cyd.	Gweinidogion Cymru (mewn perthynas ag ymgymerydd dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng	Cyfarwyddyd	Mae adran 39E, sydd newydd ei mewnosod, yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy o ymgymerydd dŵr gyhoeddi cynnig ar y cyd.	Y weithdrefn negyddol	Yn rhoi hyblygrwydd i ystyried pa ymgymerydd y dylid eu cyfarwyddo i baratoi cynigion ar y cyd a phryd.

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
	Nghymru)		<p>Mae adran 39F, sydd newydd ei mewnosod, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau am y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynllun sychder a chynnig ar y cyd.</p> <p>Mae adran 39G, sydd newydd ei mewnosod, yn dweud y gallai'r pŵer i wneud Rheoliad o dan adran 39F roi pwerau i Weinidog wneud darpariaethau trwy gyfarwyddyd.</p> <p>Mae adran 39H, sydd newydd ei mewnosod, yn gwneud darpariaethau amrywiol am y pwerau gwneud rheoliadau a enwir</p>		

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
			uchod.		
Cymal 78 Cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd	Gweinidogion Cymru (mewn perthynas ag ymgwymerwyr dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru)	Cyfarwyddyd	<p>Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth o ran cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd a pharatoi ac adolygu'r cynlluniau hynny.</p> <p>Mae adran 94A(7), sydd newydd ei mewnosod, yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n nodi'r ffurf y bydd yn rhaid i gynllun rheoli draeniau a charthffosydd ei dilyn neu'r cyfnod cynllunio y mae'n rhaid i gynllun ymwneud ag ef.</p> <p>At hynny, mae a.94B sydd newydd ei mewnosod yn cynnwys pŵer i Weinidogion</p>	Y weithdrefn negyddol	Yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd i sicrhau bod cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd yn delio â'r heriau all godi a thrwy hynny, barhau'n effeithiol.

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
			<p>Cymru, drwy Orchymyn, ddiwygio'r cyfnod o amser erbyn pryd y mae'n rhaid i ymgymwr carthffosiaeth gyhoeddi cynllun (yn a.94A(6)(c) y mae'r ddarpariaeth honno).</p> <p>Mae'r adran 94C sydd newydd ei mewnosod yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli draenau a charthffosiaeth. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud ar gyfer rhannu gwybodaeth, ymgynghori ar gynlluniau drafft ac ymateb iddynt,</p>		

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
			<p>dosbarthu cynlluniau drafft, a darpariaeth sy'n rhoi pŵer i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth (arall) drwy gyfarwyddydau - gweler a.94C(8). Mae'r adran 94D sydd newydd ei mewnosod yn gwneud darpariaeth atodol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan a.94C.</p> <p>Mae adran 94E sydd newydd ei mewnosod yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf unrhyw gyfarwyddydau a wneir o dan a.94C(8)</p>		
Cymal 84 Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth i wneud diweddariadau technegol ym maes ansawdd dŵr ar ôl gadael yr UE.	Y weithdrefn negyddol	Bydd ei angen i sicrhau na fydd sylweddau na'r safonau ar gyfer y sylweddau hynny nac ar gyfer statws cemegol dŵr wyneb na dŵr daear yn aros yn ddiglyfnewid ar ôl i'r DU adael yr

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
					UE. Byddai'r pŵer yn caniatáu camau deddfwriaethol i daclo'r sylweddau blaenoriaeth newydd hynny sy'n cynrychioli orau'r niwed i amgylchedd y dŵr.
Cymal 89 Prisio tir arall mewn ardaloedd draenio: Cymru	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n diwygio Deddf Draenio Tir 1991. Yn ailddatgan y pwerau a geir eisoes i wneud rheoliadau yng ngoleuni'r diwygiadau i Ddeddf 1991, gan gynnwys y pŵer cysylltiedig i wneud rheoliad a gyflwynir yng nghymal 88.	Y weithdrefn gadarnhaol	Mae angen adolygu a diweddarau'r fethodoleg ar gyfer cyfrif rhaniad yr incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu cyfrif gwerth tir arall trwy ddull arall (gan y bydd IDBs yn cael defnyddio data eraill i wneud y cyfrifiadau hyn). Fe'u nodir mewn is-ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn gadarnhaol. Byddai'n briodol a chymesur nodi'r dull prisio yn y rheoliadau, gan fod y darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion mater technegol ac eilaidd.
Cymal 90 Prisio tir amaethyddol mewn ardal ddraenio: Cymru a Lloegr	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau sy'n darparu dull arall ar gyfer cyfrif ardrethi draenio.	Y weithdrefn gadarnhaol	Mae'r Bil yn caniatáu is-ddeddfwriaeth i ddarparu dull arall o gyfrif gwerth tir ardrethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) i osgoi unrhyw wyro posibl all ddod yn sgil cyfrif

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
					y dyraniad. Byddai'n briodol a chymesur nodi'r dull prisio yn y rheoliadau, gan fod y darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion mater technegol ac eilaidd.
Cymal 91 Datgelu gwybodaeth Cyllid a Thollau.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio Deddf Draenio Tir 1991 i ganiatáu i HMRC rannu gwybodaeth â phobl gymwys at ddibenion cymwys. Rhoddir pŵer i wneud rheoliad ar gyfer ychwanegu at y rhestr o 'bobl gymwys'.	Y weithdrefn gadarnhaol	Mae angen y pŵer i ychwanegu at y rhestr o bobl gymwys a nodir o dan adran newydd 37A(3)(h) er mwyn medru ychwanegu pobl eraill y bydd angen iddynt weld gwybodaeth yr HMRC at ddiben cymwys, ac a enwir yn ddiweddarach, at y rhestr mewn is-ddeddfwriaeth, pan fydd y fframwaith o gyrff rheoleiddio sy'n gweithredu yn y maes hwn yn newid.
Para 1(1) Atodlen 20 Diwygio rheoliad REACH	Gweinidogion Cymru (pwerau cydredol)	Rheoliad	Yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH o dan y ddarpariaeth hon, cyn belled â bod arfer y pŵer hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.	Y weithdrefn gadarnhaol.	Mae adran 1 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn diddymu Deddf Cymunedau Ewrop 1972. Mae hyn yn golygu mai'r unig ffordd o ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 a Rheoliadau Ymadael â'r UE REACH yw trwy

Adran neu atodlen o'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Y Weithdrefn	Rheswm dros ddewis y Weithdrefn
					<p>ddeddfwriaeth sylfaenol.</p> <p>Mae angen y pŵer hwn er mwyn gallu cadw Rheoliadau Ymadael â'r UE REACH yn gyfoes.</p>
Atodlen 20 2(1) Diwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (O.S. 2008/2852).	Gweinidogion Cymru (Cyddredol plws)	Rheoliad	Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (O.S. 2008/2852) o dan y ddarpariaeth hon, cyn belled â bod arfer y pŵer hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.	Y weithdrefn gadarnhaol	Mae angen y pŵer hwn i sicrhau y gellir diweddarau Rheoliadau Gorfodi REACH 2008.